

Patrwm cyflwyno O fis Tachwedd i fis Ebrill
Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r modiwl ar-lein hwn yn archwilio'r cysyniadau a thechnegau uwch a ddefnyddir drwy gydol oes y meddalwedd, ar gyfer cynhyrchu a rheoli systemau meddalwedd mawr, cymhleth a hiroesol yn effeithiol. Mae'n cynnig safbwynt cyfannol ar ffactorau technegol ac annhechnegol sy'n rhan o ddatblygu systemau meddalwedd defnyddiol a diogel mewn cyd-destunau cymdeithasol a sefydliadol cymhleth. Bydd myfyrwyr yn ennill profiad ymarferol o arferion peirianeg meddalwedd, mewn cyd-destunau unigol a gweithio mewn tîm. Er mwyn astudio'r modiwl hwn bydd angen iddynt fod wedi cwblhau M813 *Datblygu meddalwedd*, neu gael gwybodaeth broffesiynol gyfatebol am ddatblygu meddalwedd.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- dealltwriaeth gynhwysfawr o egwyddorion ac arferion sylfaenol peirianeg meddalwedd
- gwybodaeth am ofynion peirianeg yng nghyd-destun problemau busnes
- profiad o ddatblygu meddalwedd neu ei rhoi ar waith, a'i chyd-destun sefydliadol
- ymwybyddiaeth o faterion dynol, cymdeithasol, proffesiynol, cyfreithiol a moesegol sy'n gysylltiedig â datblygu meddalwedd.

Byddai'n fanteisiol meddu ar y canlynol:

- profiad o dechnegau neu adnoddau presennol ar gyfer rhai o'r canlynol, neu bob un ohonynt: peirianeg gofynion, datblygu meddalwedd, cynnal a chadw, amcangyfrif a rheoli cydweddu
- ymwybyddiaeth o egwyddorion, arferion a safonau rheoli ansawdd meddalwedd
- dealltwriaeth o faterion rhanddeiliaid mewn perthynas â phroblemau busnes
- gwybodaeth am asesu risg, metrigau ac amcangyfrif ar gyfer meddalwedd
- ymwybyddiaeth o ddulliau blaengar mewn cysylltiad â pheirianeg meddalwedd
- gradd uwch berthnasol
- profiad o addysgu mewn amgylchedd academiaidd, diwydiannol neu fasnachol.

Gwybodaeth ychwanegol

- Rydym yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr lle mae eu profiad yn tarddu o gefndir diwydiannol neu academiaidd, neu'r ddau.

Manylion sy'n gysylltiedig â'r modiwl – gellir dod o hyd i eglurhad llawn ar y wefan

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno ar gyfer aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	4
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	6